

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y cyfarfod: 23 Ionawr 2024

Teitl: Ail-gomisiynu'r Grant Cymorth Tai

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi trosolwg i'r Cabinet o'r gwaith parhaus o ail-gomisiynu gwasanaethau sy'n rhan o'r Grant Cymorth Tai a gofyn am gyfrifoldeb dirprwyol am ddyfarnu tendr o fwy na £1m

Er: Penderfyniad

Portffolio'r Cabinet ac Aelod Cabinet:

Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

Cefndir

Mae gwasanaethau sy'n cael eu cyllido trwy'r Grant Cymorth Tai (HSG) wedi bod o dan adolygiad dros gyfnod o 3 blynedd, gyda chynlluniau i ail-gomisiynu wedi'u gohirio'n sylweddol oherwydd pandemig Cofid19. Mae'r contractau hanesyddol a'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn cael eu cydnabod fel rhai hen ffasiwn ac angen eu halinio er mwyn bodloni canllawiau caffael newydd ac amodau contract corfforaethol. Yn ogystal, ers y dadansoddiad Cefnogi Pobl, mae rhywfaint o gynnydd wedi bod yn anghenion cymorth pobl yn ogystal â niferoedd cynyddol mewn meysydd penodol, lechyd Meddwl yn bennaf.

Ym mis Medi 2022, gwnaeth y Cabinet gymeradwyo Cynllun Rhaglen Grant Cymorth Tai, a oedd yn amlinellu'r cynlluniau i ddatblygu portffolio Cymorth Tai ar draws cynllun 4 blynedd. Mae cam allweddol nesaf y ddarpariaeth yn gofyn am gomisiynu gwasanaethau, wedi'i gefnogi gan ymrwymiad cyllido hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant Cymorth Tai. Mae'r cam hwn hefyd yn darparu cyfle amserol i sicrhau bod gwasanaethau'n cyd-fynd â Blaenoriaethau Corfforaethol Ceredigion ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r model TAW, gan ddarparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws ystod o oedrannau ac anghenion.

Mae'r dull comisiynu a gynigir yn adlewyrchu rhai newidiadau diweddar yng nghanllawiau Deddfwriaeth ac Ymarfer, ynghyd â newidiadau polisi Llywodraeth Cymru ar draws yr adran Tai. Yn benodol, yr ystyriaethau allweddol yw;

- Cyllid Grant Cymorth Tai tan fis Mawrth 2025 (£3.97m yn flynyddol) gyda chyllid pellach am 4 blynedd ar yr un lefel, gan yrru'r angen i sicrhau gwerth am arian.
- Datblygu cynlluniau Ceredigion i weithredu "Ailgartrefu Cyflym", gyda newidiadau perthnasol i gefnogi llwybrau ac anghenion.
- Bwriad Llywodraeth Cymru o fis Mawrth 2024 i gynnwys Prosiectau Atal Digartrefedd o dan lywodraethiant Grant Cymorth Tai, wedi'i nodi eisoes, gyda grant llai o tua £200k yn flynyddol.

- Cadarnhad Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r Cynllun Bond o'r Gymdeithas Gofal i lywodraethiant Grant Cymorth Tai o fid Mawrth 2024.
- Cynnwys Tai yn Gyntaf ar gyfer leuenctid (Ariennir yn uniongyrchol gan y darparwr) o dan lywodraethiant Grant Cymorth Tai (o fis Mawrth 2025 o bosibl)
- Cynnwys Cyllid Arloesi leuenctid (o fis Mawrth 2025 o bosibl)

Y Sefyllfa Bresennol

Crynowyd y cyllidebau gwasanaeth unigol ar lefelau 2023/2024 ac maent wedi llunio Cynllun Cytundebau/Gwariant Arfaethedig Grant Cymorth Tai 24/25. O ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, ni fydd cyfanswm yr ail-gomisiynu gwasanaethau yn fwy na'r gyllideb a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2023, sy'n cynnwys cyfraniad llai i'r Grant Atal Digartrefedd (HPG), sydd bellach wedi'i gynnwys o fewn rheolaeth y Grant Cymorth Tai.

Oherwydd galw cynyddol a chymhlethdod, mae rhai cyllidebau gwasanaeth unigol wedi cael eu cyfuno/cynyddu lle mae anghenion a data cleientiaid yn cefnogi'r newidiadau, fel Achosion Cymhleth (Sylwedd / MH). Mae'r comisiynu gwasanaeth arfaethedig hefyd yn adlewyrchu trafodaethau gyda Thimau Corfforaethol, i ddarparu llwyfan i opsiynau datblygu gwasanaethau yn y dyfodol, wrth weithredu strategaeth TAW a lleihau'r baich ar gyllidebau craidd.

Mae elfen allweddol o'r Strategaeth Gomisiynu a gymeradwywyd gan Grŵp Llywio Grant Cymorth Tai, yn myfyrio ar ansawdd y darparwyr, costau a gwasanaethau cynnal tymor hir, gydag ymrwymiad i gontractau tymor hirach, yn benodol 4 blynedd, ynghyd â 2 flynedd gyda chymalau ac amodau egwyl priodol wedi'u cynnwys. Gan fod y dyraniad Grant Cymorth Tai yn cael ei gadarnhau'n flynyddol gan Llywodraeth Cymru, mae risg bosibl i'r Awdurdod sydd wedi'i lliniaru a'i reoli o fewn telerau ac amodau'r contract newydd a gymeradwywyd gan yr adran Caffael a Chyfreithiol, sef;

- Mae'r holl gontractau yn gwbl ddibynnol ar ddyraniad Llywodraeth Cymru ac yn cydnabod y gall unrhyw ostyngiad neu newid leihau'r gyllideb sydd ar gael ac, o'r herwydd, gall yr Awdurdod derfynu'r contract(au).
- Bydd pob darparwr yn cael mesurau perfformiad, gwariant ac ansawdd penodol a gall hyn, os na chânt eu cyflawni, arwain at hysbysiadau gwella a therfynu cytundebau.

Yn unol â llywodraethu, mae'r Cynllun Cytundebau/Gwariant Arfaethedig Grant Cymorth Tai 24/25 yn nodi'r cyllidebau gwasanaeth blynyddol arfaethedig ynghyd â'r contractau hynny sy'n fwy na £1m mewn gwerth. Oherwydd hyn, mae angen cymeradwyaeth y Cabinet cyn y gellir cwblhau dyfarniad cytundeb.

Cais am Awdurdod Dirprwyedig

Mae effaith y gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer y Grant Cymorth Tai o fis Ebrill 2024, yn gorfodi ailgynllunio'r gwasanaeth ar gyfer prosiectau Llety Dros Dro ar draws y Sir ac alinio â'r cymorth tai presennol.

Oherwydd yr angen i'r Cabinet gymeradwyo pob cytundeb sy'n fwy na £1m a'r oedi posibl a ddaw yn sgil derbyn y gymeradwyaeth hon, gallai'r canlyniad arwain at ymestyn y cyswllt presennol ar ôl 31ain Mawrth 2024 ac felly byddai pwysau cyllidebol

yn ganlyniad o hyn oherwydd gostyngiadau yng nghyllid Grant Cymorth Tai o 01 Ebrill 2024.

Mae'r papur hwn felly'n gofyn am gymeradwyaeth i fwrw ymlaen â chais am awdurdod dirprwyedig gan y Cabinet ac mae'n awgrymu'r dull canlynol;

1. Gofyn i'r Cabinet gymeradwyo i symud ymlaen i dendro am y gwerth grant llawn ar gyfer y cytundeb Cymorth TA Brys gwerth £1,345,933.20 (gwerth 4 + 2 flynedd) i liniaru'r gostyngiad cyllid Grant Cymorth Tai sy'n ddyledus o fis Ebrill 2024.
2. Cais i'r Cabinet roi awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo/arwyddo dyfarniad cytundeb gan gynnwys:
 - a. Aelod o'r Cabinet, Cyllid
 - b. Swyddog Adran 151
 - c. Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cymorth Cynnar
3. Darparu cadarnhad i'r Cabinet llawn bod cytundebau sy'n cael eu dyfarnu o fewn y terfynau grant a gwasanaethau wedi'u cynllunio gwreiddiol, a'u cyflwyno yn y cyfarfod Cabinet addas nesaf yn dilyn y dyfarniad.
4. Darparu cadarnhad o gydymffurfiaid â rheoliadau Caffael.
5. Hysbysu ar unwaith o unrhyw faterion cytundeb lle gall gwerthoedd a gynlluniwyd fod dros / o dan y gyllideb a bod angen adolygu'r Cynllun Gwariant ar gyfer 2024/25.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam.

Na. Nid yw'n cyfeirio at newid polisi neu wasanaethau.

Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:

Hir dymor: Amherthnasol
Cydweithio: Amherthnasol
Cynnwys: Amherthnasol
Atal: Amherthnasol
Integreiddio: Amherthnasol

Argymhelliad / Argymhellion

Bod y Cabinet yn CYMERADWYO:

- 1) yr egwyddor o ddyfarnu contract Cymorth TA Brys Grant Cymorth Tai
- 2) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i bob un o'r canlynol ar y cyd i gymeradwyo dyfarnu/cymeradwyo'r cytundeb i'r tendr llwyddiannus:
 - Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd
 - Aelod Cabinet, Cyllid a Chaffael
 - Swyddog Arweiniol Corfforaethol-Cyllid a Chaffael (a Swyddog Adran 151)
 - Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cymorth Cynnar

Rhesymau dros y penderfyniad:

Sicrhau y gall y Cyngor ddyfarnu contract Grant Cymorth Tai ar gyfer Cymorth Llety Dros Dro Brys mewn modd amserol a sicrhau bod y darparwr yn gallu ymgymryd â'r contract newydd o 1 Ebrill 2024

Trosolwg a Chraffu:

Amherthnasol

Fframwaith Polisi:

Amherthnasol

Amcanion Llesiant Corfforaethol:

Amherthnasol

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:

Bydd cymeradwyo'r argymhelliad hwn yn sicrhau y bydd dyraniad cyllid Grant Cymorth Tai ar gyfer 2024/25 yn cael ei fodloni ac na fydd yn arwain at bwysau cyllideb o 1 Ebrill 2024 ymlaen.

Goblygiadau cyfreithiol:

Dim

Goblygiadau staffio:

Dim

Goblygiadau eiddo/asedau:

Dim

Risg(iau):

Nad oes unrhyw ddarparwyr addas yn cyflwyno tendr – mae'r cyfnod contract 4+2 flynedd wedi gosod gyda'r bwriad o liniaru'r risg hon.

Pwerau Statudol:

Dim

Papurau Cefndir:

Dim

Atodiadau:

Dim

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:

Greg Jones, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar (dros dro)

Swyddog Adrodd:

Llyr Hughes, Rheolwr Corfforaethol – Tai

Dyddiad:

03/01/2024